WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2019 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1647A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara Utley, Gareth Lewis, Steve Stark a Nathan Couch.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Cefndir 4

Prif gasgliadau 6

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

**Llywodraethu**: Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy gan gynnwys rhoi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod pwyllgorau diwygiedig y Bwrdd yn craffu'n ddigonol ar fusnes craidd a mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn ei ddull o reoli risg a llywodraethu ansawdd. 8

**Cynllunio strategol**: Gallai capasiti cyfyngedig i reoli newid effeithio ar y gwaith sy'n flaenoriaeth uchel y mae ei angen i gwblhau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig. Mae newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi arwain at ddarparu llai o fanylion am gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ceir risg y gall cymeradwyaeth i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael ei thynnu'n ôl os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i gryfhau trefniadau llywodraethu ac ansawdd. 18

**Rheoli adnoddau ariannol**: Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ac mae ganddo reolaethau stiwardiaeth a rheoli ariannol sy'n gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd â chryn dipyn o amser rheolwyr, ac wedi creu peth ansicrwydd ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20. 22

**Rheoli'r gweithlu**: Mae'r heriau o ran y gweithlu a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd yn dal yn amlwg. Ceir dibyniaeth uchel ar staff asiantaeth a locymau, cydymffurfio gwael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, lefelau absenoldeb oherwydd salwch uwch na'r cyfartaledd a lefelau isel o ran cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn cael eu cymryd ond mae materion o ran y gweithlu'n dal i greu risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. 26

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn 2019. Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Mae ein gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2019 wedi cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion, arsylwadau yng nghyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau rheolwyr ac adolygiadau o ddogfennau perthnasol, perfformiad a data ariannol. Cwblhawyd yr adolygiad hwn ym mis Awst a mis Medi 2019, gyda'n gwaith maes a'n cyfweliadau'n cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn.

3 Mae ffocws allweddol asesu strwythuredig ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Eleni, rhoddodd archwilwyr sylw hollbwysig i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion a chyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn 2018 ac mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan bedair thema – trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, cynllunio strategol, rheoli adnoddau ariannol a rheoli'r gweithlu.

## Cefndir

4 Canfu ein hasesiad strwythuredig yn 2018 drefniadau da ar gyfer cynllunio strategol a rheoli cyllid ac asedau ond cyfeiriodd at nifer o heriau sylweddol o ran y gweithlu gan gynnwys y ffactorau sy'n ysgogi'r defnydd cymharol uchel o locymau a staff asiantaeth. Fe wnaethom nodi hefyd bod agweddau ar lywodraethu ansawdd, rheoli risg a throsolwg ar drefniadau TGCh yr oedd angen eu gwella.

5 Yn ystod ein hasesiad strwythuredig yn 2018 ac am chwarter cyntaf 2019, bu'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio peth wmbredd o amser uwch reolwyr ar drosglwyddo cyfrifoldeb am ofal iechyd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r newid i'r ffin o ganlyniad. Digwyddodd y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2019, a chafodd ôl troed diwygiedig y Bwrdd Iechyd ei adlewyrchu yn ei enw newydd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

6 Yn ystod haf 2018, daeth pryderon i'r wyneb ynghylch diffyg adrodd ar ddigwyddiadau difrifol mewn gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt. O ganlyniad i hyn fe gomisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad gan Golegau Brenhinol Bydwreigiaeth ac Obstetreg a Gynecoleg. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad[1] ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, gosodwyd gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd

[1] Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth yng Nghwm Taf

mewn mesurau arbennig ac fe uwchgyfeiriwyd y sefydliad cyfan i statws 'ymyriad wedi'i dargedu' o fewn Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

7 Yn ogystal â phryderon ynghylch gwasanaethau mamolaeth, bu materion mewn perthynas ag Iechyd meddwl hefyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn canfod nifer o faterion mewn perthynas â chynnal a chadw a gwella amgylcheddau gwasanaethau ar gyfer cleifion iechyd meddwl. Mynegwyd pryderon gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ym mis Mawrth 2018 hefyd, mewn perthynas â diffygion yn erbyn y Safonau Cydsyniad, Systemau Llywodraethu ac Ansawdd, Olrheiniadwyedd a Safleoedd, Cyfleusterau ac Offer mewn gwasanaethau marwdy yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg[2]. Yn 2018, canfu arolygiad dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)[3] gan AGIC yn Ysbyty'r Tywysog Siarl nad oedd yr ysbyty'n cydymffurfio mewn perthynas ag asesu, monitro a chofnodi dognau ymbelydredd cleifion.

8 O ganlyniad i'r pryderon cronnol hyn, fe gynhaliodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad brys a manwl o drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Cyhoeddwyd canlyniadau'r archwiliad ym mis Tachwedd[4]. Fe amlygodd yr adolygiad nifer o wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd gofal a diogelwch cleifion. Hefyd, fe amlygodd yr adolygiad angen am welliant sylweddol ac ar frys ar lefel cyfarwyddiaethau a chorfforaethol i gryfhau trefniadau, strwythurau sefydliadol a rolau presennol a'u hailwampio'n sylfaenol.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli ei gyfrifon dros bob cyfnod treigl o dair blynedd ers cyflwyno'r gofyniad. Ar ddiwedd 2018-19 cyflawnodd y Bwrdd Iechyd warged bach o £57,000 yn erbyn ei ddyraniad refeniw a gwarged bach yn erbyn ei ddyraniad cyfalaf rhwng 2016-17 a 2018-19. Cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ei gymeradwyo am y chweched flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, fe nododd Llywodraeth Cymru amodau wrth gymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gan gynnwys yr angen i ddatblygu cynllun gwella cadarn gyda cherrig milltir a deilliannau eglur i gryfhau trefniadau llywodraethu ac ansawdd drwy'r sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai methiant i gyflawni hyn effeithio ar gymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu sicrwydd parhaus ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau pontio ar gyfer newid y ffin i gynnwys

[2] Adroddiad ar ôl ymweliad â'r safle i arolygu cydymffurfiaeth â safonau trwyddedu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol

[3] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2000, a adwaenir fel IR(ME)R fel y'u diwygiwyd yn 2006. Mae'r rheoliadau wedi'u bwriadu i: Warchod cleifion rhag cysylltiad gormodol neu anghywir ag ymbelydredd a sicrhau, ym mhob achos, bod y risg o ganlyniad i gysylltiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol. Sicrhau nad yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad nag sy'n angenrheidiol i ddwyn y budd a ddymunir o fewn terfynau technoleg gyfredol a gwarchod gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol neu fiomeddygol, ddiagnostig neu therapiwtig, a'r rhai sy'n cael cysylltiadau meddygol-gyfreithiol

[4] Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Pen-y-bont ar Ogwr, darparu sicrwydd parhaus a gwelliant parhaus o ran rôl y Bwrdd Iechyd fel darparwr gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) arbenigol, darparu mwy o eglurder ynghylch camau gweithredu, canlyniadau a cherrig milltir ar gyfer pob agwedd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a rhaid i ymrwymiadau a cherrig milltir mewn perthynas â chynllunio rhanbarthol fod yn dryloyw a chael eu cyflymu.

# Prif gasgliadau

10 Y casgliadau ar y cyfan sy'n deillio o'n gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2019 yw: **Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gael ei hun mewn sefyllfa sy'n gryn her. Rhaid iddo fynd i'r afael â gwendidau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu a rheoli risg a hynny ar frys. Rhaid iddo fynd i'r afael â heriau parhaus o ran y gweithlu a'i ddiwylliant sefydliadol. Mae cyflawni'r newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gamp sylweddol, ond mae'r trosglwyddiad wedi ychwanegu at gymhlethdod blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd newydd o ran newid sefydliadol. Mae arweinyddiaeth newydd mewn rolau gweithredol allweddol, ynghyd â chydnabyddiaeth i heriau cyfredol a dealltwriaeth amdanynt, a hanes da o reolaeth ariannol a chynllunio strategol yn rhoi peth optimistiaeth y gellir cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.**

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy gan gynnwys rhoi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod pwyllgorau diwygiedig y Bwrdd yn craffu'n ddigonol ar fusnes craidd a mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn ei ddull o reoli risg a llywodraethu ansawdd.

12 Gallai capasiti cyfyngedig i reoli newid effeithio ar y gwaith sy'n flaenoriaeth uchel y mae ei angen i gwblhau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig. Mae newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi arwain at ddarparu llai o fanylion am gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ceir risg y gall cymeradwyaeth i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael ei thynnu'n ôl os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i gryfhau trefniadau llywodraethu ac ansawdd.

13 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ac mae ganddo reolaethau stiwardiaeth a rheoli ariannol sy'n gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd â chryn dipyn o amser rheolwyr, ac wedi creu peth ansicrwydd ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20.

14 Mae'r heriau o ran y gweithlu a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd yn dal yn amlwg. Ceir dibyniaeth uchel ar staff asiantaeth a locymau, cydymffurfio gwael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, lefelau absenoldeb oherwydd salwch uwch na'r cyfartaledd a lefelau isel o ran cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn cael eu cymryd ond mae materion o ran y gweithlu'n dal i greu risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.

15 Caiff ein canfyddiadau eu hystyried mewn mwy o fanylder yn yr adrannau canlynol.

# Argymhellion

16 Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: argymhellion 2019

| Argymhellion |
|---|
| **Strwythurau Pwyllgorau**<br>A1 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod strwythurau newydd yr is-bwyllgorau'n cefnogi craffu digonol ar feysydd pwysig o ran busnes a darparu gwasanaethau. Canfuom y gallai fod o fudd rhoi sylw gwell i feysydd allweddol fel y Gweithlu ac Iechyd Meddwl. |
| **Prosesau Pwyllgorau**<br>A2 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y broses o fynd at wraidd mater yn cael ei defnyddio'n briodol, a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i drafod canlyniadau unrhyw broses o fynd at wraidd mater ym mhwyllgorau perthnasol y Bwrdd. |
| **Trefniadau Rheoli Perfformiad**<br>A3 Canfuom fod monitro perfformiad yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond y gellid gwneud rhai gwelliannau i wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu fformat ac eglurder y dangosfwrdd perfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau i dynnu sylw at welliannau neu ddirywiad mewn perfformiad er mwyn ei gwneud yn bosibl craffu'n fwy effeithiol a sicrhau mwy o dryloywder. |
| **Rheoli newid**<br>A4 Canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd raglen waith sylweddol i ddatblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig a chynlluniau trawsnewid strategol mewn cyfarwyddiaethau. Dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso'r capasiti ar gyfer rheoli newid yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei fod yn ddigon i gefnogi prosiectau trawsnewid gwasanaethau'n effeithiol. |
| **Adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig**<br>A5 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi bwrw golwg o'r newydd ar y trefniadau ar gyfer adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig eleni a'i fod yn adrodd yn erbyn gofynion atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, un o ofynion atebolrwydd Llywodraeth Cymru yw mwy o eglurder ynghylch camau gweithredu, canlyniadau a cherrig milltir ar gyfer pob agwedd ar y cynllun y creffir arno gan y Bwrdd. Rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• Adolygu cynnwys yr adroddiadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol i sicrhau eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth am gyflawni'r cynllun tair blynedd, gan gynnwys perfformiad yn erbyn yr amcanion ar y cyfan a blaenoriaethau blynyddol. |

# Adroddiad manwl

## Llywodraethu

17 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Fe wnaethom fwrw golwg ar y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Fe wnaethom ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro'r modd y cyflawnir amcanion sefydliadol. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion.

18 Yn 2019 **canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy gan gynnwys rhoi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod pwyllgorau diwygiedig y Bwrdd yn craffu'n ddigonol ar fusnes craidd a mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn ei ddull o reoli risg a llywodraethu ansawdd.**

### Cynnal Busnes yn Effeithiol

**Mae gan y Bwrdd heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy. Rhaid iddo oruchwylio camau i roi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod diwygiadau i drefniadau is-bwyllgorau'r Bwrdd yn dwyn y manteision a fwriadwyd a datblygu rhaglen datblygu'r Bwrdd. Mae angen iddo sicrhau bod digon o gapasiti llywodraethu corfforaethol canolog i gefnogi busnes y Bwrdd.**

19 Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o heriau a newidiadau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd ar ei wedd bresennol yn gymharol newydd, a bu newidiadau sylweddol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Fe ymadawodd y Prif Weithredwr hirsefydlog â'r sefydliad ym mis Awst 2019 gyda phenodiad interim i'r swydd yn cael ei wneud ym mis Gorffennaf 2019. Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol interim a benodwyd ym mis Awst 2019 a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol interim a benodwyd ym mis Ebrill 2019. Mae'r penodiadau hyn yn gadarnhaol a byddant yn sefydlogi'r Bwrdd Iechyd yn y byrdymor. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gynllunio trefniadau olyniaeth ar gyfer y rolau allweddol hyn.

20 Bu newidiadau i'r Arweinyddiaeth Weithredol ar gyfer Nyrsio eleni. O fis Awst 2018 tan fis Mawrth 2019, bu gan y Bwrdd Gyfarwyddwr Nyrsio dros dro. Ym mis Ebrill 2019 fe wnaed penodiad parhaol i'r swydd Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r strwythur corfforaethol sy'n cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol, gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Phrofiad Cleifion, Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Pennaeth Diogelu, Pennaeth Nyrsio Corfforaethol ac Uwch Nyrs Safonau Proffesiynol a Sicrhau Ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn recriwtio Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n swydd newydd, ac fel rhan o'r model gweithredu newydd bydd yn hysbysebu cyn bo hir ar gyfer tair swydd Cyfarwyddwr Nyrsio Ardal Leol newydd.

21 Mae penodiadau eraill wedi cael eu gwneud hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd ar ôl i'r swydd fod yn wag am ddwy flynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi llwyddo i recriwtio Cyfarwyddwr Meddygol ar ôl ymddeoliad y Cyfarwyddwr Meddygol blaenorol.

22 Yn dilyn proses bontio Pen-y-bont ar Ogwr, roedd yn amlwg bod angen bwrw golwg o'r newydd ar y model gweithredu i sicrhau bod y safleoedd yn cael eu hintegreiddio'n llawn. Yn ystod ein gwaith mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau â'i waith i fwrw golwg o'r newydd ar y model gweithredu. Mae'r model gweithredu newydd wedi cael ei ddatblygu a bydd yn seiliedig ar bobl, cymunedau ac ansawdd. Mae'r gangen gyflawni'n seiliedig ar dair ardal leol integredig. Bwriedir cytuno ar ddeilliannau a safonau cyffredin trwy grwpiau systemau ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan a fydd hefyd yn gyfrifol am gynllunio ochr yn ochr â safonau a deilliannau. Mae ymgynghoriad ynghylch y model diwygiedig yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn y sefydliad ac mae Swyddogion Gweithredol yn ymgysylltu â staff fel rhan o'r broses hon.

23 Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd wedi cydnabod yr angen iddo ddatblygu'n barhaus ac mae'n cael ei gefnogi gan raglen datblygu bwrdd Deloitte fel rhan o ymyriad wedi'i dargedu. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys arsylwadau, hunanasesiadau a datblygiad un i un gydag Aelodau Annibynnol a Swyddogion Gweithredol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r allbwn i ddylunio Rhaglen Datblygu'r Bwrdd ar gyfer 2020. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal sesiynau briffio'r Bwrdd ac, ar eu holau, ymweliadau ymgysylltu anffurfiol gan y Bwrdd ar draws pob ardal leol i roi cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd ymgysylltu'n anffurfiol â staff a chael gwell dealltwriaeth am amgylcheddau, diwylliant a chyflawni gweithredol. Ar adeg ein hadolygiad ni roedd y sesiynau anffurfiol hyn yn cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae dwy sesiwn wedi cael eu cynnal hyd yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

24 Mae busnes y Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnal yn unol â Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu a chyflwyno Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol i'r holl Fyrddau Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei Reolau Sefydlog ei hun ac mae'n bwriadu adolygu ei Gynlluniau Ariannol Sefydlog yn ôl amserlen wahanol. Cafodd y fersiwn ddiweddaraf o'r Rheolau Sefydlog ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 i gael cymeradwyaeth ffurfiol a chael ei rhoi ar waith.

25 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 canfuom, er ei fod yn gyfoes ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd, bod y Cynllun Dirprwyo heb gael ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Eleni, canfuom fod y Cynllun Dirprwyo bellach yn adlewyrchu'r gofyniad hwn. Rydym yn deall y gallai'r Cynllun Dirprwyo gael ei adolygu ymhellach o ystyried bod y model gweithredu newydd yn cael ei gyflwyno.

26 Yn ddiweddar mewn ymateb i'r pryderon ynghylch llywodraethu ansawdd mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau diweddaru rhai o'i bwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y newidiadau canlynol:

- Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg yn newid i fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch gyda'r cyfrifoldeb am fonitro risgiau corfforaethol ar y gofrestr risg gorfforaethol yn symud i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyllgor hwn hefyd wedi newid o gwrdd bob chwarter i gwrdd ddeg gwaith y flwyddyn;
- Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn newid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau gan adlewyrchu rôl gynyddol gweithio mewn partneriaeth; ac

- Yn awr bydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn, yn hytrach nag yn flynyddol fel ei fod yn gyson â Byrddau Iechyd eraill.

27 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu Pwyllgor Llywodraethu Integredig a oedd yn cynnwys holl Gadeiryddion holl bwyllgorau'r Bwrdd i sicrhau trosolwg ar waith is-bwyllgorau'r Bwrdd; fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried dyfodol y pwyllgor hwn ar hyn o bryd. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ac nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd ers mis Rhagfyr 2018.

28 Mae'r newidiadau hyn yn gadarnhaol; fodd bynnag mae ein arsylwadau ni ar gyfarfodydd y Bwrdd yn dangos bod cylchoedd gorchwyl rhai pwyllgorau'n dal i fod yn weddol fawr. Er enghraifft, mae gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu lwyth gwaith sylweddol, ac mae ein harsylwadau ni'n dangos nad oes craffu digonol ar eitemau allweddol megis trafodaethau ynglŷn â'r gweithlu. O ystyried y materion sylweddol yn y Bwrdd Iechyd o ran y gweithlu megis gwariant ar staff asiantaeth, datblygu'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a chydymffurfio gwael â hyfforddiant, mae'n achos pryder mai sylw cyfyngedig a roddir i faterion y gweithlu.

29 Yn ddiweddar, fe gynhwysodd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu (Hydref 2019) dair eitem a oedd yn mynd 'at wraidd y mater' ar yr un agenda. Mae'r eitemau hyn sy'n mynd 'at wraidd y mater' wedi'u bwriadu i roi cyfleoedd i Aelodau Annibynnol fwrw golwg fwy manwl ar agweddau ar fusnes neu berfformiad y sefydliad nag a fyddai fel arfer yn digwydd gydag eitem nodweddiadol ar yr agenda. Fodd bynnag, mae'r amser a ddyrennir i graffu ar y rhain yn annigonol, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio'r broses hon yn fwy strategol a neilltuo digon o amser i'w gwneud yn bosibl cynnal adolygiad effeithiol o'r mecanwaith sicrwydd hwn.

30 Fe wnaeth ein hadolygiad o bapurau'r Bwrdd ac arsylwadau amlygu rhai bylchau yn y sylw a roddir i fusnes y Bwrdd Iechyd y mae angen mynd i'r afael â hwy hefyd. Mae AGIC wedi cynnal adolygiadau ac arolygiadau o ystod o Wasanaethau Iechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd rhwng 2015 a 2018. Cododd AGIC bryderon, lle'r oedd wedi cynnal adolygiadau dilynol ac ail arolygiadau, ei bod yn glir bod diffyg dysgu o ymweliadau blaenorol. Nid ydym yn glir ar hyn o bryd ble y creffir yn fanwl ar berfformiad ac ansawdd arferol Gwasanaethau Iechyd Meddwl, er ein bod yn cydnabod gwaith cynnar i fwrw golwg ar ansawdd iechyd meddwl yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

31 Canfu ein gwaith yn 2018 fod bylchau yn y trefniadau i oruchwylio cynnydd o ran datblygu TGCh megis y Strategaeth Iechyd Digidol. Roedd pwyllgor gwybodaeth ddigonol a TGCh newydd yn yr arfaeth a fyddai'n atebol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. Fodd bynnag, nid yw hwn wedi cwrdd eto, sydd wedi achosi bwlch o ran craffu ar TGCh yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo amodau gorchwyl y grŵp hwn, ac mae'r cyfarfod cyntaf i wedi'i amserlennu ar gyfer mis Chwefror 2020.

32 Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cynnwys ystod o gynrychiolwyr ar ran y Bwrdd Iechyd, partneriaid a dinasyddion. Mae'n cysoni ei agenda â chynllun gwaith y Bwrdd Iechyd ac yn cydgysylltu barn gan randdeiliaid lleol a buddiannau o bob rhan o ardal Cwm Taf Morgannwg, sy'n darparu adborth ar faterion busnes allweddol. Canfu ein gwaith arsylwi ni ar y pwyllgor fod cyfarfod a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer mis Ebrill 2019 wedi'i ganslo am nad oedd cworwm, ac nid oedd nifer dda'n bresennol yn y cyfarfod

a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2019 gydag ymddiheuriadau niferus wedi dod i law. Canfuom leoedd gwag niferus yn aelodaeth y pwyllgor hefyd. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y pwyllgor wedi adolygu ei amodau gorchwyl sy'n cynnig rhai newidiadau i aelodaeth a rheolau cworwm y pwyllgor a allai helpu i ddatrys y materion.

33 Mae capasiti'r tîm gwasanaethau corfforaethol i reoli'r newidiadau yn strwythurau pwyllgorau'r Bwrdd a'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau'n achos pryder. Mae ein dau adroddiad Asesiad Strwythuredig blaenorol wedi nodi'r heriau i'r tîm gwasanaethau corfforaethol o ran llunio papurau ar gyfer pwyllgorau wythnos cyn cyfarfodydd a bu enghreifftiau diweddar o bapurau hwyr y mae angen eu monitro a mynd i'r afael â hwy a deall y rhesymau'n eglur. Mae'r tîm Gwasanaethau Corfforaethol wedi diweddaru templedi adroddiadau'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 ac maent yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ar ysgrifennu papurau ar gyfer y Bwrdd, a'r broses. Mae hefyd yn datblygu siart lif o'r broses fel bod dealltwriaeth glir o amserlenni, cynnwys a fformat adroddiadau i gynorthwyo yn hyn o beth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiad o galendrau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu paratoi'n dda ac y gweithredir yn dda mewn perthynas â hwy, a bod gwybodaeth yn llifo mewn ffordd effeithlon ac amserol. Fodd bynnag, rydym yn nodi camau cadarnhaol diweddar i fireinio'r templedi ar gyfer cynlluniau gweithredu a gyflwynir i bwyllgorau gyda chamau gweithredu'n cael eu diweddaru cyn cyfarfodydd pwyllgorau i'w gwneud yn bosibl craffu'n fwy effeithiol.

34 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cydnabod ac mae'n mynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau i dracio argymhellion archwilio. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â gwella'i fecanwaith tracio, yr eglurder a'r sicrwydd sy'n ofynnol i dynnu argymhellion oddi ar yr offeryn tracio a chynnwys argymhellion gan ddarparwyr sicrwydd eraill/cyrff allanol megis AGIC a'r Uned Gyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fireinio a datblygu'r offeryn tracio Argymhellion Archwilio. Mae wedi ymgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru a'r swyddogaeth Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd Nodyn Ymarfer ar Dderbyn, Gweithredu a Monitro Argymhellion Archwilio yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2019.

## Argymhellion blaenorol

35 Yn 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â'r Cynllun Dirprwyo a'r Offeryn Tracio Argymhellion. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 2: cynnydd gyda'r argymhellion blaenorol ynghylch y Cynllun Dirprwyo a'r Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) er mwyn dynodi uwch nyrs gofrestredig i gyfrifo lefelau staffio nyrsys. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd bellach yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). |
| Dylai'r Pwyllgor Archwilio sicrhau bod y cofnod tracio yn cofnodi gwybodaeth o safon dda fydd yn galluogi Aelodau Annibynnol i adolygu a chael sicrwydd bod yr argymhellion wedi'u cwblhau wrth eu dileu o'r traciwr. | **Ar y Gweill**<br>Mae'r offeryn tracio'n dal i gael ei ddatblygu yn y Bwrdd Iechyd, er ein bod yn nodi ysgogiad ac ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth yn fwy eglur ar yr offeryn tracio a datblygiad y Nodyn Ymarfer ar Dderbyn, Gweithredu a Monitro Argymhellion Archwilio a gyflwynwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2019. |
| Dylid ehangu traciwr y Pwyllgor Archwilio i gynnwys argymhellion asiantaethau allanol eraill, ee Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni. | **Ar y Gweill**<br>Rydym yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu â'r tîm Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn y gwaith hwn. Fe wnaed cynnydd hyd yma gan gynnwys datblygu a chytuno ar y Nodyn Ymarfer ar Dderbyn, Gweithredu a Monitro Argymhellion Archwilio a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2019. Fodd bynnag, nid oes offeryn tracio yn ei le eto i fonitro argymhellion asiantaethau allanol megis AGIC a'r Uned Gyflawni. |

## Rheoli Risgiau i gyflawni amcanion strategol

**Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau rheoli risg yn sylweddol gan gynnwys diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a sicrhau bod digon o wybodaeth, sgiliau a chapasiti lle mae rheoli risg yn y cwestiwn**

36 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a ategir gan system rheoli risg effeithiol yn hanfodol i ganolbwyntio sylw'r Bwrdd ar y risgiau i wireddu blaenoriaethau strategol. Rhoddodd yr Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Risg dyddiedig Mawrth 2019 sicrwydd rhesymol. Canfu'r Tîm Archwilio Mewnol nad oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei ddiweddaru'n rheolaidd na'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd na phwyllgor priodol ers mis Mai 2017. Canfu faterion hefyd mewn perthynas ag awch am risg a chraffu ar y cofrestrau risg sefydliadol.

37 Fe wnaeth ein gwaith adolygu ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd godi pryderon ynghylch y diffyg blaenoriaethau ansawdd a'r trefniadau i adrodd ar risgiau wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg hefyd. Canfuom hefyd nad oedd grŵp rheoli risg yn bodoli a bod diffyg eglurder ynghylch sut y caiff risgiau eu huwchgyfeirio at y gofrestr risg gorfforaethol. Mae angen gwella'r sgiliau a'r capasiti yn y sefydliad mewn perthynas â rheoli risg.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gwendidau yn ei drefniadau rheoli risg ac fe gynhaliodd sesiwn datblygu'r Bwrdd ar risg ym mis Awst 2019. Yn dilyn y sesiwn hon fe wnaed nifer o newidiadau, gan gynnwys: diweddariadau i'r gofrestr risg i ystyried yr ôl troed sefydliadol newydd ac amlder yr adolygiadau ohono gan y Bwrdd. Hefyd, mae cyfrifoldeb am risg ar lefel is-bwyllgorau wedi trosglwyddo o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae gwaith pwysig arall i egluro awch y sefydliad am risg a diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn mynd rhagddo. Cyflwynwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Ionawr 2020; mae angen rhai diwygiadau ac mae angen gwneud gwaith o hyd i fapio'r risgiau cyfredol ymhellach i bwyllgorau ac adnabod unrhyw fylchau o ran craffu a sicrwydd.

## Argymhellion blaenorol

39 Yn 2018 fe wnaethom yr argymhelliad canlynol mewn perthynas â threfniadau rheoli risg. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 3: cynnydd gydag argymhellion blaenorol ynghylch rheoli risg

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Er mwyn gwella arferion o ran risg a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau fod risgiau i gyflawni amcanion strategol wedi'u rheoli'n effeithiol, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) gynnal adolygiad drwy'r holl sefydliad o gofrestrau risg y cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r risgiau sydd o flaen gwasanaethau ar hyn o bryd, a<br>b) sicrhau bod cofrestrau risg yr holl gyfarwyddiaethau yn parhau i gael eu hadolygu mewn modd amserol. | **Yn hwyr ond wedi'i ddisodli**<br>Mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd yn y maes hwn. Fe wnaeth y gwaith gan yr adolygiad ar y cyd amlygu meysydd sy'n achosi pryder ac mae argymhellion wedi cael eu gwneud mewn perthynas â risg. Ein barn ni yw bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei ddisodli gan waith yr adolygiad ar y cyd. |

## Sicrhau fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch

**Fe wnaed cynnydd mewn rhai meysydd o ran seiberddiogelwch, er mai cyfyngedig yw gweithgarwch craffu'r Bwrdd ar lywodraethu gwybodaeth a TGCh ar hyn o bryd**

40 Canfu ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2018 nad oedd cynllun gweithredu seiberddiogelwch gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion mewn asesiad allanol o seiberddiogelwch. Mae cynllun yn ei le erbyn hyn er bod rhai o'r camau gweithredu'n dal heb gael eu rhoi ar waith yn bennaf oherwydd diffyg capasiti staff TGCh. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi staff ychwanegol yn ddiweddar ac mae'n disgwyl y bydd y camau gweithredu sydd heb gael eu rhoi ar waith yn cael eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn galendr.

41 Nid yw gwaith i gryfhau strwythurau llywodraethu mewn perthynas â TGCh a llywodraethu gwybodaeth wedi cael ei gwblhau eto. Fel a nodir ym mharagraff 31, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth / TGCh sy'n cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol ac a fydd yn cwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2020. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd y pwyllgor hwn yn cael ei gefnogi gan y Bwrdd Strategaeth Ddigidol cyfredol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu a phedwar is-grŵp arall: Y Bwrdd Cynghori ar Newid, Y Grŵp Rheoli Portffolio, Y Grŵp Rheoli Gwasanaethau a'r Grŵp Seiberddiogelwch.

## Argymhellion blaenorol

42 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth, seiberddiogelwch a'r Strategaeth Iechyd Digidol. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: cynnydd gydag argymhellion ynghylch llywodraethu gwybodaeth a TGCh

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i gryfhau'r trefniadau goruchwylio yn gysylltiedig â TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth, drwy:<br>a) sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg yn craffu ar gofnodion Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd Ddigidol a'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth; ac<br>b) egluro a chyfleu cysylltiadau rhwng llywodraethu gwybodaeth a TGCh er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer goruchwylio busnes digidol yr Ymddiriedolaeth a chraffu ar hynny. | **Ar y Gweill**<br>Mae Grŵp Llywio'r Strategaeth Ddigidol wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd eleni. Mae wedi datblygu'r agenda i gynnwys portffolio arwyddocaol. Mae'r Aelod Annibynnol newydd dros TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth wedi bod yn bresennol trwy gydol y flwyddyn yn cefnogi trafodaeth fwy gwybodus am seiberddiogelwch yn y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu a'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur llywodraethu yn ei le'n llawn. |
| Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu seiberddiogelwch er mwyn gweithredu argymhellion o Asesiad Diogelwch Allanol GIG ac unrhyw adolygiadau eraill o seiberddiogelwch fel bo'n briodol. Dylid ei ddefnyddio hefyd i sicrhau bod trefniadau seiberddiogelwch ar waith i fodloni anghenion y Bwrdd Iechyd. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu Seiberddiogelwch. Mae rhai o'r cynlluniau gweithredu ar y cynllun yn dal heb eu rhoi ar waith yn bennaf oherwydd diffyg capasiti staff TGCh; fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi staff ychwanegol yn ddiweddar ac mae'n rhagweld y bydd y camau gweithredu sydd heb eu cymryd yn cael eu rhoi ar waith ar ddiwedd y flwyddyn galendr. |
| Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynllun gweithredu manwl ag adnoddau i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r Strategaeth Iechyd Digidol. | **Ar y Gweill**<br>Er nad oes cynllun gweithredu ag adnoddau cwbl fanwl, fe adnabu'r Bwrdd Iechyd dri maes i'w blaenoriaethu, i ddatblygu achos busnes ar eu cyfer ac i ddechrau gweithio arnynt. Fe wnaed cynnydd da gyda phob un o'r prosiectau hyn gyda chymeradwyaeth y Bwrdd i ddigideiddio cofnodion; Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu; ac E-bresgripsiynu. Mae rhaglenni cyflawni bellach ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Mae arian cyfalaf ar gyfer TGCh yn dal heb ei glustnodi ac ni threfnwyd fod unrhyw arian ychwanegol ar gael fel rhan o drosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr. |

## Trefniadau rheoli perfformiad

**Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad unwaith y bydd y model gweithredu newydd ar waith, a datblygu ei adroddiadau ar berfformiad ymhellach**

43 Yn 2017 fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Rheoli Perfformiad a oedd wedi'i fwriadu i gynorthwyo staff ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Fodd bynnag, ni chafodd byth ei roi ar waith yn llawn drwy'r Bwrdd Iechyd ac mae'r fersiwn ddrafft gyfredol yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017/18. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i adolygu a diweddaru'r fframwaith fel rhan o ddatblygu strwythur diwygiedig y sefydliad. Maent yn disgwyl i hyn gael ei gwblhau erbyn diwedd 2019/2020 gan ddibynnu ar gwblhau'r model gweithredu newydd.

44 Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu Dangosfwrdd Perfformiad Integredig cynhwysfawr sy'n gysylltiedig â Fframwaith Cyflawni a thargedau Haen 1 GIG Cymru. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol o ran meincnodi, tueddiadau a rhagolygon yn ogystal â naratif ategol ar gyfer meysydd lle mae angen gwella perfformiad. Mae'r wybodaeth hon yn gynhwysfawr ond mae'n anodd i'w darllen mewn mannau am bod peth o'r ffont yn her a bod rhifau'n gallu bod yn fach iawn. Er bod y perfformiad targed yn cael ei ddynodi, nid yw'r adroddiad yn cyfeirio darllenwyr yn effeithiol at feysydd lle mae perfformiad wedi gwella neu ddirywio. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu cynnwys a fformat y dangosfwrdd perfformiad integredig i roi trosolwg weledol glir i ddarllenwyr ar berfformiad i gefnogi craffu effeithiol.

45 Mae cynlluniau i ddatblygu templed adroddiad ar berfformiad y Bwrdd Iechyd a newid i ddangosfwrdd perfformiad mwy integredig a allai ddwyn ynghyd wybodaeth am gyllid, perfformiad, ansawdd a'r gweithlu. Rydym yn cydnabod ymgysylltiad diweddar Aelodau Annibynnol i lunio fformat a chynnwys adroddiadau ar berfformiad; enghraifft nodedig yw adroddiadau cyllid y Bwrdd Iechyd sydd wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae materion gyda chapasiti ac argaeledd dadansoddwyr busnes yn effeithio ar gynnydd y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn.

46 Mae'r crynodeb o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn mesurau'r fframwaith cyflawni deilliannau'n dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gwella yn erbyn 38 o fesurau, wedi cael ei gynnal yn erbyn 1 a bod perfformiad wedi dirywio yn erbyn 30 o fesurau. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r sefyllfa a nodwyd ganddo ar ddiwedd y flwyddyn sef bod dim cleifion yn aros am fwy na 36 o wythnosau am driniaeth ond canfu rai rhestrau aros heb eu nodi a achosodd gynnydd o 1822 yn nifer y cleifion a oedd yn aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion llywodraethu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyrraedd y targed o ran amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth trwy gydol y flwyddyn gan mai targed o un mis i'r llall yw hwn yn hytrach nag un blynyddol.

## Llywodraethu Ansawdd

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal rhaglen sylweddol o waith i fynd i'r afael â materion gyda llywodraethu ansawdd**

47 Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 nad oedd systemau a oedd yn bodoli ar gyfer llywodraethu ansawdd yn effeithiol o ran amlygu materion a phryderon nac o ran dangos ymatebion i welliannau. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2019 fe gynhaliodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd o'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth yr adolygiad archwilio pa un a oedd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel, effeithiol o ansawdd da. Canfu'r adolygiad wendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd a chododd bryderon bod y gwendidau hyn yn peryglu gallu'r Bwrdd Iechyd i fynd ati'n ddigonol i adnabod ac ymateb i broblemau a all godi gydag ansawdd a diogelwch gofal am gleifion. Fe wnaeth yr adolygiad ar y cyd argymhellion ynghylch Llywodraethu Ansawdd yn ychwanegol at y rhai a wnaed gennym yn 2018. Rydym ni o'r farn bod argymhellion yr adolygiad ar y cyd yn fwy amserol, gan adlewyrchu'r newidiadau mewn strwythurau a wnaed eisoes gan y Bwrdd Iechyd.

## Argymhellion blaenorol

48 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 5: cynnydd gydag argymhellion blaenorol ynghylch llywodraethu ansawdd

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Er mwyn gwella trefniadau llywodraethu ansawdd, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod mynychder cyfarfodydd y Grŵp Llywio Ansawdd yn briodol;<br>b) sicrhau bod yr adroddiad ar ansawdd yn fwy eglur wrth amlygu pryderon ynghylch ansawdd, a hefyd yn esbonio sut mae'r Bwrdd Iechyd yn dysgu gwersi;<br>c) ymgynghori â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu'r Strategaeth Ansawdd newydd;<br>d) gwella ansawdd a chysondeb papurau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth y eglur a chryno, fel bo modd nodi pryderon yn rhwydd, er mwyn amlygu'r camau a gymerwyd er mwyn ymdrin â'r pryderon hynny ac er mwyn dangos yr hyn a ddysgwyd; | Mae'r adran hon wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol, ac i groesgyfeirio argymhellion a ddisodlwyd gan yr adolygiad ar y cyd.<br>a) **Ddim yn ofynnol mwyach**. Mae'r Grŵp Llywio Ansawdd wedi'i ddiddymu ac mae'n cael ei ddisodli ar hyn o bryd gan strwythurau is-bwyllgorau newydd fel a nodir yn y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Gellir tynnu'r argymhelliad hwn allan.<br>b) **Yn hwyr**. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i fynd i'r afael â gwella'i Adroddiad Ansawdd yn dilyn yr adolygiad ar y cyd, ac mae angen i hyn fod yn ystyriaeth barhaus.<br>c) **Yn hwyr**. Nid yw'r gwaith wedi dechrau eto ar Strategaeth Ansawdd newydd y Bwrdd Iechyd ond mae angen ymgynghori'n effeithiol â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y |

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| e) archwilio'r prosesau ansawdd, diogelwch a risg o fewn cyfarwyddiaethau er mwyn cael sicrwydd eu bod yn gweithredu'n effeithiol;<br>f) adolygu perthnasedd polisïau'r sefydliad y gofynnir i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg eu cymeradwyo, ac ailddyrannu cyfrifoldebau i bwyllgorau eraill; a<br>g) darparu cwrs cynefino wedi'i gynllunio'n arbennig i Aelodau Annibynnol sydd newydd eu penodi i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg er mwyn sicrhau craffu effeithiol ar faterion ansawdd, a dealltwriaeth o'r materion hynny. | broses hon. Felly mae angen mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn wrth i waith ar y Strategaeth Ansawdd gael ei ddatblygu.<br>d) **Wedi'i ddisodli**. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu ansawdd a chysondeb papurau sy'n ategu agenda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg, a chodwyd hyn yn yr adolygiad ar y cyd.<br>e) **Wedi'i ddisodli**. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â threfniadau rheoli risg drwy'r sefydliad cyfan ac fe wnaed argymhelliad yn yr adolygiad ar y cyd sy'n disodli'r argymhelliad hwn.<br>f) **Wedi'i gwblhau**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ac mae trefniadau yn eu lle i is-bwyllgor polisi adrodd wrth y pwyllgor ansawdd a diogelwch ar gyfer y broses hon.<br>g) **Wedi'i ddisodli**. Cafodd y maes hwn ei nodi yn yr adolygiad ar y cyd ac mae angen gwneud gwaith pellach i roi cymorth priodol i aelodau annibynnol gyflawni eu cyfrifoldebau. |
| **Argymhellion 2017** | **Disgrifiad o'r Cynnydd** |
| Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fireinio ansawdd ei bapurau a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg:<br>• gwneud y papurau yn fwy cryno ac iddynt fwy o ffocws; ac (roedd rhai papurau a welwyd yn rhy hir a chymhleth); ac<br>• ystyried y ffordd y rheolir yr agenda, er enghraifft, cyflwyno materion mwy cymhleth ar ddechrau'r pwyllgor, a symud penderfyniadau i gymeradwyo polisïau tua diwedd yr agenda. | **Wedi'i ddisodli.**<br>Mae hyn wedi parhau i fod yn broblem ac fe wnaed argymhellion yn yr adolygiad ar y cyd i ganolbwyntio ar y maes hwn. Mae problemau gydag ansawdd a hyd papurau o hyd, yn ogystal â faint o waith y disgwylir i'r pwyllgor ei wneud. Rydym yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â datblygu'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn dilyn cymeradwyo'r amodau gorchwyl newydd yn ddiweddar; fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach. |

# Cynllunio strategol

49 Mae ein gwaith yn ystyried sut y mae'r Bwrdd wedi pennu amcanion ar gyfer y sefydliad, a pha mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio i gyflawni'r rhain gan ddefnyddio'r adnoddau ar gael iddo, neu y gall drefnu eu bod ar gael. Fe wnaethom archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ei amcanion a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud, a'r cynnydd a wnaed o ran rhoi ein hargymhellion ar waith.

50 Yn 2019, canfuom y **gallai capasiti cyfyngedig i reoli newid effeithio ar y gwaith sy'n flaenoriaeth uchel y mae ei angen i gwblhau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig. Mae newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi arwain at ddarparu llai o fanylion am gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n benodol i gryfhau trefniadau llywodraethu ac ansawdd i gynnal y gymeradwyaeth i'w Gynllun Tymor Canolig Integredig.**

51 Fel gyda blynyddoedd blaenorol mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu diweddariadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, eleni mae'r gofynion adrodd gan Lywodraeth Cymru wedi newid. Gan bod y Bwrdd Iechyd wedi symud i statws ymyriad wedi'i dargedu, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu diweddariadau chwarterol ar atebolrwydd yn erbyn y materion a nodwyd yn eu llythyrau i gymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi newid ei drefniadau ar gyfer adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn unol â'r gofynion hyn. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gynnwys llai o fanylion mewn adroddiadau lleol ar weithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ei gyfanrwydd a chynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir ynddo.

52 Y llynedd fe wnaethom nodi bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu ei strategaeth gwasanaethau clinigol hirdymor (y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig fel y'i gelwir bellach) ond bod oedi wedi bod gyda'r gwaith o'i datblygu oherwydd y newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Yn dilyn cwblhau'r broses o drosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019, mae gwaith ar y strategaeth wedi parhau ac mae'r Bwrdd Iechyd i fod i gyhoeddi Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig ym mis Mawrth 2020. Bydd cwblhau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig yn cefnogi datblygiad strategaethau ategol megis y rhai ar gyfer TGCh, Ystadau a'r Gweithlu.

53 Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cymeradwy i wireddu ei weledigaeth strategol. Dyma'r chweched flwyddyn yn olynol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig o fewn y ffrâm amser ofynnol ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2019. Mae ffocws y strategaeth wedi aros yn gyson, gyda'r themâu canlynol:

- Llesiant
- Gofal cymunedol integredig
- Gofal yn nes at adref
- Gofal acíwt

54 O fewn y themâu hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio deilliannau tair blynedd yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 – 2021-22. Nodir 18 o flaenoriaethau dros ystod eang o feysydd. Yn ogystal â themâu gofal, ceir thema alluogi drosfwaol, sy'n cynnwys mynd ati ymhellach i ddatblygu a chyflawni'r strategaeth ddigidol.

55 Fodd bynnag, yn dilyn y newid yn statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd roedd nifer o amodau'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth i'w Gynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gyson â'i statws uwchgyfeirio. Yn fwyaf arwyddocaol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflymu a chryfhau trefniadau llywodraethu ac ansawdd drwy'r sefydliad cyfan a datblygu cynllun

gwella cadarn gyda cherrig milltir a deilliannau eglur. Mae angen cynnydd cyflym mewn meysydd allweddol gan gynnwys datblygu'r capasiti a gallu sefydliadol i wella a hwb Gwella Ansawdd cysylltiedig, gwasanaethau mamolaeth (gan gynnwys cyrraedd y cerrig milltir a bennwyd gan y Panel Trosolwg Annibynnol), rheoli pryderon a digwyddiadau difrifol, arweinyddiaeth y Bwrdd, datblygu sefydliadol a llywodraethu) a darparu tystiolaeth o hyn trwy drefniadau adrodd misol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai methu â chyflawni hyn effeithio ar y gymeradwyaeth i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

56 Ar ben hynny, rhoddwyd gorchwyl i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- darparu sicrwydd parhaus ynghylch y trefniadau pontio ar gyfer y newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys y trefniadau datblygu sefydliadol sy'n ofynnol a goblygiadau ariannol;
- sicrwydd parhaus a gwelliant parhaus yn rôl y Bwrdd Iechyd fel darparwr gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol ar gyfer poblogaeth y Bwrdd Iechyd ac ar gyfer y gwasanaethau hynny a ddarperir ar ran byrddau iechyd eraill;
- darparu mwy o eglurder ynghylch camau gweithredu, canlyniadau a cherrig milltir ar gyfer pob agwedd ar y cynllun a chraffu effeithiol gan y Bwrdd; a
- rhaid i ymrwymiadau a cherrig milltir o ran cynllunio rhanbarthol fod yn dryloyw a chael eu cyflymu.

57 Mae'r prosesau ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol, er y gwnaed addasiadau i sicrhau bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn adlewyrchu'r boblogaeth ehangach newydd yn dilyn y newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019. Mae'r cynllun yn disgrifio busnes y Bwrdd Iechyd o dair safbwynt, sef naill ai o safbwynt integredig, neu o safbwynt Cwm Taf neu o safbwynt Pen-y-bont ar Ogwr gydag ymrwymiad y bydd cynllun 2020-23 yn Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n wirioneddol integredig, gan y bydd yr holl swyddogaethau a gwasanaethau iechyd wedi'u hintegreiddio'n llawn erbyn hyn.

58 Fel gyda blynyddoedd blaenorol mae'r Adran Perfformiad a Gwybodaeth yn rhoi cymorth corfforaethol i sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cyfarwyddiaethau, ardaloedd lleol a'r swyddogaeth gorfforaethol yn cael eu cwblhau'n brydlon. Rhoddir ystyriaeth i'r galw a chapasiti fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, anogir Cyfarwyddiaethau i wreiddio gofal iechyd darbodus a seiliedig ar werthoedd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a cheir enghreifftiau da o wasanaethau a ddatblygwyd ac a ddarperir gyda'r egwyddorion hyn mewn cof, er enghraifft enillodd y prosiect 'Cadw'n Iach Gartref' un o Wobrau'r GIG yn 2018 am gyfraniad neilltuol at ofal iechyd darbodus.

59 Yn flaenorol mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu nifer o themâu trawsbynciol i gynyddu cynhyrchiant, gwella gwerth am arian a gwella ansawdd gwasanaethau trwy leihau gwastraff ac amrywiad. Cafodd y gwaith hwn ei oruchwylio gan y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth. Fodd bynnag, o 2019/20 mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau symud perchnogaeth ar, ac atebolrwydd am gyflawni a prosiectau i'r lefel weithredol, ond bydd y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth yn dal i fonitro cynnydd. Rydym yn

ymwybodol bod y gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo, a bod rhaglen lawn o'r cynlluniau'n cael ei datblygu a'i chytuno; fodd bynnag, nid yw goblygiadau hyn ar gyfer y cyfarwyddiaethau wedi cael eu harchwilio eto ac mae'r cynlluniau'n dal i gael eu datblygu.

60 Yn yr adroddiadau ar ein dau Asesiad Strwythuredig blaenorol fe wnaethom amlygu pryderon ynghylch y capasiti cyfyngedig yn Swyddfa Rheoli Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd yn ogystal â'r capasiti i reoli newid o fewn y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen adnoddau ychwanegol yn dilyn y newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Os na fydd capasiti digonol, ceir risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn gwireddu ei uchelgeisiau trawsnewid gwasanaethau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

61 Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Busnes Tymor Canolig Integredig Cyfalaf ac Ystadau sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau a blaenoriaethau allweddol gan gynnwys y rhai ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr o 2019 i 2022. Unwaith y bydd y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig wedi cael ei datblygu, rhagwelir y bydd hon yn darparu'r cyfeiriad angenrheidiol i alluogi'r adran Ystadau i ddatblygu strategaeth gwasanaethau wedi'i diweddaru.

## Argymhellion blaenorol

62 Yn 2017 fe wnaethom yr argymhelliad canlynol mewn perthynas ag adroddiadau ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chapasiti'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 6: cynnydd gyda'r argymhellion ynghylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni a wnaed yn 2017

| Argymhelliad 2017 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
| --- | --- |
| **Adroddiadau ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd fireinio proses adrodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach er mwyn cynnwys gwybodaeth fanwl am gerrig milltir er mwyn galluogi Aelodau Annibynnol i ddeall y perfformiad presennol yn unol â'r hyn a ddisgwylir. | **Yn hwyr**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi newid ei drefniadau adrodd yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf. Mae hyn wedi cael gwared ar rai o'r manylion yr oedd yn adrodd arnynt yn flaenorol. |
| Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ac ystyried gwella adnoddau a sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data. | **Ar y Gweill**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu cwmpas a chapasiti'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni gyda golwg ar dyfu ei chapasiti i reoli prosiectau'n gynaliadwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a flaenoriaethir trwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig gael eu cefnogi'n fwy priodol trwy weithredu prosiectau a gwireddu manteision.<br>Cytunwyd ar adnoddau ychwanegol ac maent yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi ôl troed newydd, mwy BIPCTM. |

# Rheoli adnoddau ariannol

63 Fe wnaethom ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi ein hargymhellion ar waith.

64 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol a bod ganddo reolaethau stiwardiaeth a rheoli ariannol sy'n gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd â chryn dipyn o amser rheolwyr, ac wedi creu peth ansicrwydd ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20.** Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

## Perfformiad a chynllunio ariannol

**Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i fantoli'r cyfrifon yn 2018-19; fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd â chryn dipyn o amser rheolwyr, ac wedi creu peth ansicrwydd ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20**

65 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ateb ei ofyniad statudol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd ers cyflwyno'r gofyniad gyntaf un. Mae'r datganiadau archwiliedig diweddaraf ar gyfer 2018-19 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwarged bach o £57,000 yn erbyn ei ddyraniad refeniw a gwarged bach o £21,000 yn erbyn ei ddyraniad cyfalaf rhwng 2016-17 a 2018-19.

66 Fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi dwyn heriau ychwanegol sydd wedi effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon gyda'r sefyllfa gylchol sylfaenol bellach wedi newid o warged cylchol bach arfaethedig o £0.6 miliwn i ddiffyg o £11.9 miliwn. Mae hyn yn cynnwys y diffyg sylfaenol cychwynnol mewn perthynas â throsglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr o £7.3 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid anghylchol o £7.1 miliwn ar ei gyfer i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon yn 2019-20. Mae'r diffyg sylfaenol o £7.3 miliwn o ganlyniad i drosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod trwy ymarfer diwydrwydd dyladwy y rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Price Waterhouse Coopers (PWC) i'w gyflawni. Cafodd yr adroddiad hwn ei gynhyrchu'n ddiweddar ac mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd a Bae Abertawe roi ystyriaeth bellach iddo.

67 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio model Partner Busnes sy'n darparu cyswllt rhwng cyllid corfforaethol a'r cyfarwyddiaethau i sicrhau bod pwysau o ran costau'n cael eu deall yn llawn a bod cynlluniau arbedion yn cael eu hadnabod i oleuo datblygiad cynlluniau ariannol cyfarwyddiaethau. Mae Partneriaid Busnes hefyd yn allweddol o ran darparu dadansoddiad o'r costau ar gyfer yr adran gyllid ganolog ar gyfer meysydd o fewn y gwasanaeth lle gellir gwneud arbedion neu lle mae'r Bwrdd Iechyd yn allanolyn.

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall yr angen i ddatblygu cynlluniau arbedion a rhaglenni gwella costau sy'n drawsnewidiol o ran eu natur er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cylchol sylfaenol. Mae hyn yn amlwg o'r rhaglen newid gwasanaethau a ddatblygwyd fel rhan o'r Cynllun

Tymor Canolig Integredig yn ogystal â'r rhaglen cynlluniau arbedion gyfredol sy'n nodi bod 65% o'r cynlluniau'n dwyn arbedion cylchol. Fodd bynnag, mae angen cyflawni'r cynlluniau hyn yn gyflymach er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar arbedion byrdymor yn ystod y flwyddyn.

69 Rydym wedi nodi'n flaenorol bod gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyrraedd ei darged arbedion bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr eleni wedi mynd â pheth wmbredd o amser rheolwyr oddi wrth fonitro a chyflawni'r arbedion hyn, sy'n amlwg yn y ffaith bod diffyg ar gyfer y flwyddyn hyd yma o £0.6m wedi'i nodi ym Mis 9 yn erbyn y targed arbedion yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o fod wedi mynd ychydig bach, sef £0.2m, y tu hwnt i'r targed. Fodd bynnag, y targed yn ystod y flwyddyn yw hwn ac mae diffyg o £2.8m o hyd yn erbyn eu targed arbedion cylchol. Mae trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr wedi dwyn heriau sylweddol sydd wedi lleihau lefel yr amser rheolwyr sydd ar gael mewn rhai meysydd yn y broses monitro ariannol. Yn arbennig, ni chafodd y cyfarfodydd Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, a oedd yn cael eu cynnal yn fisol yn ystod 2018-19, eu cynnal am bedwar mis cyntaf 2019-20. Mae hyn bellach wedi cael sylw a'r cyfarfodydd wedi cael eu hadfer ers mis Awst 2019.

## Argymhellion blaenorol

70 Yn 2017 fe wnaethom yr argymhellion canlynol ynghylch cynllunio a chyflawni arbedion. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 7: cynnydd gyda'r argymhellion ynghylch cynllunio a chyflawni arbedion a wnaed yn 2017

| Argymhelliad 2017 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ac atgyfnerthu'r broses er mwyn hwyluso cynlluniau arbedion ar y cyd a nodi cynlluniau tebyg neu ddyblyg. | **Ar y Gweill**<br>Rydym yn ymwybodol bod gwaith yn parhau ar hyn fel rhan o waith y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth sy'n gweithio i adnabod cynlluniau dyblyg a chefnogi trawsweithio.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod gwaith pellach wedi cael ei wneud ar gyfer 2019-2022 i ddiffinio'n well sut y mae cyfleoedd ar gyfer arbedion mewn themâu trawsbynciol yn effeithio ar Gyfarwyddiaethau a lle y caiff y manteision eu cyflawni. |
| Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu egwyddorion ar gyfer cyfarwyddiaethau sy'n annog gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu canllawiau ynghylch Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer yr holl gyfarwyddiaethau sy'n ymdrin â meysydd lle mae gweithio'n digwydd ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. |

## Rheoli a rheolaethau ariannol

**Ceir trefniadau rheoli ariannol eglur, ac mae adroddiadau ariannol wedi cael eu gwella eleni yn dilyn gwaith gydag Aelodau Annibynnol**

71 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith eglur ar gyfer pennu a monitro ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Trwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig mae cyfarwyddiaethau'n gweithio gyda'r adran gyllid ganolog, trwy'r partneriaid busnes, i sefydlu sefyllfa o ran y gyllideb. Mae hon yn broses ailadroddol sy'n dechrau â'r gyllideb sylfaen o'r flwyddyn flaenorol ac yn addasu hon ar gyfer pwysau o ran costau sy'n hysbys a chyfleoedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ac arbedion. Unwaith y mae'r fersiwn derfynol o'r gyllideb wedi'i chytuno, mae'r gyllideb yn cael ei dirprwyo'n ffurfiol i bennaeth y gyfarwyddiaeth sydd wedyn yn gyfrifol am fonitro'u cyllidebau'n fisol.

72 Mae proses sefydlog yn bodoli i fonitro perfformiad ariannol dros y flwyddyn. Cyflwynir adroddiadau cyllid i gyfarfodydd y Bwrdd bob deufis. Hefyd, cyflwynir cofnodion y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu er gwybodaeth.

73 Mae'r adroddiadau Cyllid yn gynhwysfawr o ran eu cynnwys a'u dadansoddiad o berfformiad ariannol. Ers mis Awst 2018 mae adran ychwanegol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad Cyllid sy'n nodi'r negeseuon allweddol i'r darllenydd. Mae hyn wedi darparu crynodeb mwy eglur a chryno sy'n fwy hydraul i aelodau'r Bwrdd gyda'r manylion yn dal i gael eu hatodi os oes angen. Mae'r negeseuon allweddol hefyd yn cynnwys y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r risgiau sylweddol.

74 Mae gan y Bwrdd Iechyd Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog priodol sy'n nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau staff. Cafodd y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ac maent bellach yn ymgorffori newidiadau sy'n deillio o drosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr ac argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018.

75 Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisïau a gweithdrefnau amrywiol ar gyfer ymdrin â thwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo sydd ar gael i staff trwy fewnrwyd y Bwrdd Iechyd. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd sy'n manylu ar yr holl golledion a thaliadau arbennig ar gyfer y cyfnod hwnnw.

76 Mae gan y Bwrdd Iechyd adran Atal Twyll hefyd i ymchwilio i unrhyw weithgarwch a allai fod yn dwyllodrus, ei fonitro ac adrodd arno. Rydym wedi mynegi pryderon yn flaenorol nad oedd digon o adnoddau gan yr adran hon i gyflawni ei chyfrifoldebau'n llawn, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau rhagweithiol ar y gwaith. Mae ein cyfweliad gyda'r Swyddog Atal Twyll Lleol wedi cadarnhau, yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr, bod lefel yr adnoddau bellach wedi cynyddu i lefel fwy cynaliadwy a'i bod yn cynnwys mwy o gymysgedd sgiliau o ran staff. Er bod y gwaith rhagweithiol yn dal i achosi peth pryder, mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â hyn unwaith y bydd yr ôl-groniad o waith wedi'i ddatrys.

77 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith pellach i archwilio effeithiolrwydd trefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda golwg ar gyhoeddi ei ganfyddiadau yn haf 2020. Bydd ei waith yn cael ei oleuo gan waith maes lleol a fydd yn dechrau tuag at ddiwedd 2019.

78 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Cyflwynodd cyrff sy'n cyfranogi ddata i ymarfer paru data cyfredol y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Hydref 2018.

79 Ym mis Ionawr 2019, cafodd y Bwrdd Iechyd 3,817 o bariadau data trwy gymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol. O'r rhain, roedd 345 wedi'u categoreiddio'n 'bariadau a argymhellir'. Ystyrir bod y pariadau hyn yn rhai risg uchel ac felly fe argymhellir eu hadolygu'n gynnar. Dengys cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol, yn seiliedig ar y sefyllfa ar 15 Hydref 2019, fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu ei bariadau dan y Fenter Twyll Genedlaethol, ac yntau wedi cwblhau ei adolygiad o'r rhan fwyaf o'r pariadau risg uchel gydag ymholiadau'n dal i fynd rhagddynt mewn nifer fach o achosion. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Bwrdd Iechyd i'w weld fel pe bai wedi cwblhau'r adolygiad o bariadau rhwng data'r gyflogres, taliadau i gredydwyr a Thŷ'r Cwmnïau. Mae'r rhain yn bariadau pwysig gan eu bod yn gallu helpu i ganfod buddiannau heb eu datgelu gan staff a thwyll caffael. Rydym felly'n argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r pariadau data hyn fel mater o frys.

## Argymhellion blaenorol

80 Yn 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol ynghylch pariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 8: cynnydd gyda'r argymhelliad ynghylch y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018

| Argymhelliad 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
| --- | --- |
| Rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn adolygu'r parau y bydd yn ei dderbyn yn y dyfodol o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol. Disgwyliwn i'r Bwrdd Iechyd:<br>a) gychwyn adolygu'r parau data ar y cyfle cyntaf ar ôl rhyddhau parau nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019;<br>b) yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill; a<br>c) lle bo parau data wedi'u hadolygu, sicrhau bod rhaglen we'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei diweddaru i roi cofnod clir o'r modd yr aethpwyd ati i adolygu'r parau, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. | **Ar y trywydd iawn ond heb ei gwblhau eto**<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â phariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol gydag ymholiadau'n dal i fynd rhagddynt mewn nifer fach o achosion. Mae gwiriadau ar y pariadau Credydwyr a oedd yn flaenoriaeth uchel wedi cael eu cwblhau, ac mae'r adolygiad o bariadau'r gyflogres a oedd yn flaenoriaeth uchel wedi dechrau ac yn dal i fynd rhagddynt. Mae gwaith pellach yn yr arfaeth er ei bod yn anodd pennu amserlen ar gyfer cwblhau'r ymarfer hwn gan bod gwiriadau'r gyflogres yn arbennig yn ddibynnol ar gael ymatebion gan sefydliadau eraill.<br>• Yn ogystal â'r pariadau a oedd yn flaenoriaeth uchel, bydd sampl o'r pariadau sy'n weddill yn cael ei hadolygu gan y Bwrdd Iechyd hefyd. |

| Argymhelliad 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| | • Caiff cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol ei ddiweddaru i gofnodi'r cam gweithredu a gymerwyd. |

# Rheoli'r gweithlu

81 Fe wnaethom ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau bod ei weithlu'n cael ei reoli'n dda. Fe wnaethom hefyd asesu'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion hyfforddi a datblygu a chamau gweithredu i ymgysylltu â staff a gwrando arnynt a diwallu anghenion o ran llesiant.

82 Canfuom fod yr **heriau o ran y gweithlu a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd yn dal yn amlwg. Ceir dibyniaeth uchel ar staff asiantaeth a locymau, cydymffurfio gwael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, lefelau absenoldeb oherwydd salwch uwch na'r cyfartaledd a lefelau isel o ran cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn cael eu cymryd ond mae materion o ran y gweithlu'n dal i greu risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.**

83 Canfu ein hasesiad strwythuredig yn 2018 fod y Bwrdd Iechyd yn ceisio rheoli materion o ran y gweithlu mewn modd gweithredol, ond bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru a bod angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol, y broses arfarnu a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol.

84 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi problemau o ran lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a locymau. Yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2019, roedd gwariant y Bwrdd Iechyd ar asiantaethau bron yn 8% o gyfanswm ei fil cyflogau, y gyfran uchaf yng Nghymru. Mae gwariant ar asiantaethau'n arbennig o uchel ar gyfer staff meddygol a deintyddol, gan roi cyfrif am ychydig dros 15% o'r bil cyflogau meddygol a deintyddol. Mae problemau gyda recriwtio meddygon ymgynghorol mewn Adrannau Achosion Brys yn arbennig o amlwg yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg lle mae problemau gyda rhoi Cynllun De Cymru ar waith wedi effeithio ar recriwtio. Mae costau asiantaethau ar gyfer staff nyrsio a bydwreigiaeth yn rhoi cyfrif am bron i 10% o'r bil cyflogau.

85 Mae'r diweddariad ar Staff Nyrsio a ddarparwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Mai 2019 yn awgrymu bod gwaith helaeth wedi cael ei gwblhau i gymeradwyo'r lefelau staffio ar gyfer yr 20 ward y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt a bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i gynnal y lefelau staffio cywir ac adolygu dangosyddion ansawdd craidd. Ar adeg ein hadolygiad roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gael gwybod beth oedd y sefyllfa yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'n mynd i'r afael ag anghysonderau mewn patrymau sifftiau ar draws ôl troed newydd y Bwrdd Iechyd a oedd yn effeithio ar ei allu i gyfrifo'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn y gofynnwyd amdanynt i gydymffurfio â'r ddeddf staff nyrsio.

86 Mae Arddangosyn 9 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n llai ffafriol â chyfartaledd Cymru ar draws pob un o'r pum mesur sy'n ymwneud â'r gweithlu. Ni allwn gymharu â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol oherwydd y newid i ffin y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 9: Perfformiad yn erbyn mesurau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu

| Mesurau sy'n ymwneud â'r gweithlu | Targed y Bwrdd Iechyd | Y Bwrdd Iechyd Gorffennaf 2019 | Cyfartaledd Cymru Gorffennaf 2019 |
|---|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | **5%** | **5.9%** | 5.4% |
| Trosiant | **Amherthnasol** | **10.4%** | 7.1% |
| Swyddi gwag | **Amherthnasol** | **3.8%** | 2.9% |
| Arfarniadau | **85%** | **62%** | 70% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | **85%** | **76%** | 80% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru Gorffennaf 2019

87 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i reoli absenoldeb oherwydd salwch, mae'r cyfartaledd treigl dros 12 mis wedi cynyddu o 5.6% i 5.9% sy'n uwch na tharged y Bwrdd Iechyd, sef 5%. Mae adroddiadau misol i'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu yn dangos nad yw'r gyfradd fisol wedi gostwng islaw 5.5% rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2019. Nid yw camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd i leihau cyfraddau absenoldeb wedi sicrhau unrhyw welliannau sylweddol mewn cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch eto. Mae camau'n cynnwys cyflwyno polisi newydd i reoli absenoldeb oherwydd salwch, datblygu pecyn cymorth i gefnogi mentrau iechyd a llesiant, cyfarfodydd ffrwd waith salwch a datblygu systemau cymorth sefydliadol ar gyfer ymdrin â straen.

88 Ym mis Gorffennaf 2019 mae cyfradd trosiant y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar draws pob grŵp staff nyrsio a meddygol allweddol. Fe wnaeth adroddiad dilynol gan y tîm Archwilio Mewnol ar gadw staff dyddiedig Awst 2019 ddarparu sicrwydd cyfyngedig eto. Roedd yr adroddiad yn nodi bod peth cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion y cytunwyd arnynt ond bod y cynnydd wedi arafu gan nad yw'r prif swyddog cyfrifol ar gyfer pedwar o'r chwe cham rheoli gwreiddiol yn ei swydd mwyach. Nid yw'r Strategaeth Cadw Nyrsys a'r cynllun gweithredu cysylltiedig wedi newid ers yr archwiliad gwreiddiol, ac o ganlyniad nid yw'r set o fentrau sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu wedi symud ymlaen felly ychydig o gynnydd a fu yn y maes allweddol hwn i wella cyfraddau cadw nyrsys ar draws y Bwrdd Iechyd.

89 Roedd y gyfradd swyddi gwag ym mis Gorffennaf 2019, yn seiliedig ar swyddi a hysbysebwyd yn 3.8% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (2.9%). Mae ein dadansoddiad ni o ddata Gwasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu GIG Cymru yn dangos bod nifer y swyddi gwag ar y cyfan wedi cynyddu ychydig ers 2018. Mae'r Diweddariad diweddaraf ar Berfformiad Sefydliadol a'r Gweithlu i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn dynodi bod

swyddi nyrsio gwag ar wardiau acíwt a chymunedol oedolion ac yn Unedau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn achos pryder gyda'r sefyllfa ar wardiau acíwt yn fwy o broblem na'r sefyllfa ar y wardiau eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu trwy recriwtio'n rhyngwladol o India; mae saith unigolyn i fod i gyrraedd ym mis Medi 2019 a 25 o ymgeiswyr posibl yn mynd trwy'r broses recriwtio ar hyn o bryd. Mae gwaith arall yn cynnwys diwrnodau agored / recriwtio ar safleoedd ysbytai, ymgysylltu â nyrsys graddedig a chynnig rhaglen addasu i nyrsys a hyfforddwyd dramor ond sy'n byw yn y DU.

90 Mae cydymffurfiaeth â'r broses arfarnu, Arfarniadau o Berfformiad ac Adolygiadau o Ddatblygiad (PADR) yn dirywio. Mae Arddangosyn 9 yn dangos bod ychydig dros hanner staff y Bwrdd Iechyd (62%) wedi cael Arfarniad o Berfformiad ac Adolygiad o Ddatblygiad yn ôl y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2019. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (70%) a'r targed (85%). Fodd bynnag, canfuom nad oedd gwybodaeth am arfarniadau wedi trosglwyddo i systemau'r Bwrdd Iechyd newydd fel rhan o newid y ffin sy'n golygu bod sefyllfa'r Bwrdd Iechyd newydd yn cael ei thangynrychioli. Rydym yn deall bod y tîm Dysgu a Datblygu yn y broses o drosglwyddo cofnodion â llaw ar gyfer yr aelodau hynny o staff yr effeithir arnynt. Er hynny, mae nifer o gamau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael ag Arfarniadau o Berfformiad ac Adolygiadau o Ddatblygiad ar lefel cyfarwyddiaethau gan gynnwys, annog rheolwyr i fonitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd yn y meysydd y maent hwy'n gyfrifol amdanynt, darparu adroddiadau misol ar gyfer Rheolwyr Cyfarwyddiaethau ar y data diweddaraf ynghylch cydymffurfio ag Arfarniadau o Berfformiad ac Adolygiadau o Ddatblygiad a chodi ymwybyddiaeth o'r cwrs hyfforddi ar Arfarniadau o Berfformiad ac Adolygiadau o Ddatblygiad sydd ar gael i'r holl reolwyr.

91 Un o'r heriau parhaus i'r Bwrdd iechyd yw gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae Arddangosyn 9 yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd (76%) yn is na chyfartaledd Cymru (80%) a'r targed (85%). Ar hyn o bryd, fodd bynnag, dim ond hyfforddiant a gwblhawyd cyn 1 Ebrill y mae'r cofnodion hyfforddiant yn y Cofnod Staff Electronig yn ei ddangos ar gyfer staff o Fwrdd Iechyd Cwm Taf gynt a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn dilyn y newid i'r ffin, mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod gofynion gwirioneddol pob aelod o staff o ardal Pen-y-bont ar Ogwr o ran hyfforddiant a'i lanlwytho i'r Cofnod Staff Electronig. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn oedd Tachwedd 2019.

92 Canfuom welliant yn y gyfran o'r meddygon ymgynghorol sy'n cwblhau'r broses cynllunio swyddi o 36% ym mis Mawrth 2019 i 51% ym mis Medi 2019. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, mae cydymffurfiaeth yn dal ymhell islaw'r targed o 90%. Fe wnaeth adroddiad gan y tîm Archwilio Mewnol ar Gynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol dyddiedig Hydref 2019 ddarparu sicrwydd cyfyngedig. Canfu'r archwiliad hwnnw niferoedd uchel o gynlluniau swyddi a oedd naill ai ddim yn gyfredol neu ddim yn bodoli, roedd deilliannau mewn cynlluniau swyddi'n generig, nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion ac nid oeddent yn cysylltu â Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Roedd anghysonderau hefyd mewn sesiynau a oedd wedi'u cofnodi ar gynlluniau swyddi ac yn nifer y sesiynau yr oedd meddygon yn cael tâl amdanynt, a phroblemau gyda rheolaethau ar dalu am Oriau Dyletswydd Ychwanegol a chynyddiadau ychwanegol o

ganlyniad i Ddyfarndaliadau Ymrwymiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn ymateb i argymhellion y tîm Archwilio Mewnol gan gynnwys adolygiad o ganllawiau cynllunio swyddi lleol yn dilyn y newid i'r ffin.

### Diwylliant a Gwerthoedd

**Mae gwaith angenrheidiol wedi dechrau i ddatblygu gwerthoedd ac ymddygiadau'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwella ymgysylltiad staff a'r diwylliant sefydliadol**

93 Yn gadarnhaol, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu set o werthoedd ac ymddygiadau sefydliadol ac mae gan y Bwrdd Iechyd amserlen glir ar gyfer gweithredu gan gydnabod yr angen i sicrhau bod y rhain yn cael eu gwreiddio. Er bod canlyniadau arolwg staff y GIG 2018 yn dangos peth cynnydd o'i gymharu ag arolwg 2016 gyda gwelliannau sylweddol mewn rhai sgoriau, roedd y Bwrdd Iechyd islaw sgoriau'r GIG ar y cyfan ar gyfer nifer o'r cwestiynau, ac roedd ei ymateb ar y cyfan (22%) islaw cyfartaledd Cymru gyfan (29%). Mae gwelliannau yn yr ymatebion i arolwg 2018 yn cynnwys gweithio fel tîm, ymddygiadau rheolwyr llinell, amlygrwydd a gweledigaeth y Tîm Gweithredol ac adnoddau staffio. Mae meysydd lle ceir ychydig o symudiad llai cadarnhaol mewn sgoriau'n cynnwys straen yn y gwaith, aflonyddu, bwlio a cham-drin. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod yr arolwg staff a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiad ar y Cyd o Lywodraethu Ansawdd yn ddiweddar hefyd wedi adnabod rhai ymatebion i gwestiynau a oedd yn peri gofid ynghylch bwlio ac aflonyddu.

94 Mae cynllun gweithredu wedi'u gyflwyno i fynd i'r afael â materion a godwyd yn arolwg staff y GIG 2018, ac yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau eraill i wella ymgysylltiad staff a diwylliant. Mae cyfres o sesiynau 'Dewch i Ni Siarad' wedi cael ei chynnal i roi cymorth i ddatblygu fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd. Mae sesiynau wedi cael eu cynnal trwy gydol mis Tachwedd, ac mae sesiynau mewnol pellach yn yr arfaeth ar gyfer mis Rhagfyr; mae'r rhain wedi cynnwys staff a chleifion.

95 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ystod o brosiectau i wella ymgysylltiad â swyddogion gweithredol hefyd; mae'r rhain yn cynnwys Dewch i ni Siarad (gyda Swyddogion Gweithredol), Brecwast gyda Greg (Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth), Twitter, sgyrsiau byw ar Facebook, blog y Prif Weithredwr, sesiynau Dewch i ni Siarad am Ddiwylliant; teithiau ymgysylltu ffurfiol gan y Bwrdd a 'Diwrnod ym mywyd'. Mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau da o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymegnïo i fynd i'r afael â'r materion diwylliannol ac ymgysylltu â staff ar draws y Sefydliad. Hefyd, fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Llywio Profiad Cyflogeion sy'n gadarnhaol ac a ddylai helpu i roi cymorth i gyflawni profiad cadarnhaol i staff.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru